



Gwefan Eich Cymru Chi

20 Awst 2021

Cais am Wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 30 Gorffennaf, pan wnaethoch ofyn,

I write regarding a Freedom of Information request on the Your Wales website, and would be grateful if you could provide me with responses to the following questions:

- 1. How many hits has the Your Wales website had since it went live - broken down by month and year?*
- 2. How much has the Your Wales website cost per year, including set up costs and ongoing costs of the platform?*
- 3. How many Senedd employees run and add to the Your Wales website?*
- 4. How many Senedd and Welsh Government consultations has the Your Wales website pointed the public to since it went live?*

Mae ein hymateb i'w gael isod.

- 1. How many hits has the Your Wales website had since it went live - broken down by month and year?*

Mis	Gweld y dudalen - gwefan Gymraeg	Gweld y dudalen - gwefan Saesneg
Tachwedd 2019	16	282
Rhagfyr 2019	339	3974
Ionawr 2020	505	5953
Chwefror 2020	5	219
Mawrth 2020	4	71
Ebrill 2020	8	81

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Cardiff, CF99 1SN

Welsh Parliament
Bae Caerdydd
Cardiff, CF99 1SN

Ffôn/Tel: 0300 200 6528

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

Mai 2020	4	54
Mehefin 2020	1	50
Gorffennaf 2020	0	38
Awst 2020	0	20
Medi 2021	0	60
Hydref 2020	1	49
Tachwedd 2020	2	32
Rhagfyr 2020	4	286
Ionawr 2021	12	373
Chwefror 2021	9	193
Mawrth 2021	2	96
Ebrill 2021	7	119
Mai 2021	2	104
Mehefin 2021	0	103
Gorffennaf 2021	1	55

2. *How much has the Your Wales website cost per year, including set up costs and ongoing costs of the platform?*

Gallwn gadarnhau ein bod yn cadw'r wybodaeth y gofynnir amdani mewn perthynas â chost blynyddol Eich Cymru Chi. Fodd bynnag, rydym o'r farn y byddai rhyddhau'r wybodaeth hon yn niweidio ein buddiannau masnachol, neu'n debygol o wneud hynny, ac felly y mae wedi cael ei heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 43(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Ceir rhesymau dros gymhwyso'r eithriad yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

Fodd bynnag, gallwn gadarnhau nad oedd unrhyw gostau sefydlu, ac nid oes unrhyw gostau parhaus ychwaith.

3. *How many Senedd employees run and add to the Your Wales website?*

Mae gan dri o weithwyr y Senedd fynediad gweinyddol at y llwyfan hwn a gallant ychwanegu cynnwys at wefan Eich Cymru Chi. Eu prif rôl yw cefnogi pwyllgorau'r Senedd drwy hwyluso cyfleoedd ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol o bob rhan o Gymru, yn enwedig pobl â phrofiad byw, defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr rheng flaen.

4. *How many Senedd and Welsh Government consultations has the Your Wales website pointed the public to since it went live?*

Mae dau ymgynghoriad yn y Senedd wedi'u cynnal ar y wefan. Rhoddodd le hefyd i ffocws a oedd yn cynnwys gwybodaeth am Gynulliad Dinasyddion Cyntaf Cymru.

Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru ar y wefan. Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'n gyfansoddiadol ar wahân i Lywodraeth Cymru. Felly, nid yw'r Senedd yn cynnal ymgynghoriadau ar ran Llywodraeth Cymru.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn, cysylltwch â mi. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais am ryddid gwybodaeth?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu anfonwch lythyr i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Atodiad

Adran 43 Deddf Rhyddid Gwybodaeth: byddai datgelu'n niweidio, neu'n debygol o niweidio, ein buddiannau masnachol

Mae adran 43(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn eithrio rhag datgelu unrhyw wybodaeth a 'fyddai, neu a fyddai'n debygol, o niweidio buddiannau masnachol unrhyw berson (gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus sy'n ei ddal).'

Y bwriad y tu ôl i'r eithriad yw atal datgelu gwybodaeth a allai achosi niwed i fuddiannau masnachol unrhyw sefydliad, megis ei allu i gymryd rhan gystadleuol mewn gweithgarwch neu amgylchedd masnachol.

Y wybodaeth sydd wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu yw'r ffi gytundebol flynyddol sy'n gysylltiedig â gwefan Eich Cymru Chi. Mae manylion y contract y cytunwyd arno gyda chynigydd llwyddiannus, megis ffioedd cysylltiedig, yn wybodaeth fasnachol, hyd yn oed pan gytunir arni gan awdurdod cyhoeddus ac yn aml mae'n fasnachol sensitif. Byddai datgelu'r wybodaeth hon yn debygol o gael effaith niweidiol ar fuddiannau masnachol y Comisiwn drwy gael effaith negyddol ar ei allu i barhau i fod yn gystadleuol wrth geisio tendro am wasanaethau tebyg yn y dyfodol. Byddai darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn llesteirio safbwynt negodi'r Comisiwn ac, felly, yn debygol o gael effaith niweidiol ar ei allu i gael gwerth am arian o ran gwariant cyhoeddus.

Mae adran 43(2) yn ddarostyngedig i ystyriaeth 'prawf budd cyhoeddus'. Er mwyn atal y wybodaeth y gofynnir amdani, mae'n rhaid ein bod yn fodlon bod y budd i'r cyhoedd o gynnal yr eithriad yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth.

Rydym yn ymwybodol o'r angen, lle y bo'n briodol, i fod yn agored ac yn dryloyw, yn ogystal â'r angen i ganiatáu atebolrwydd am ddefnyddio arian cyhoeddus. Rydym hefyd yn derbyn bod diddordeb y cyhoedd mewn hyrwyddo cystadleuaeth mewn caffael drwy dryloywder. Fodd bynnag, mae budd mawr i'r cyhoedd mewn amddiffyn buddiannau masnachol y Comisiwn er mwyn sicrhau y gall sicrhau gwerth am arian o ran gwariant cyhoeddus. Mae gallu'r Comisiwn i sicrhau gwerth am arian yn gysylltiedig yn ei hanfod â'i allu i gynnal sefyllfa negodi gref wrth gaffael gwasanaethau gan drydydd partïon allanol. Byddai datgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn debygol o gael effaith

niweidiol ar allu'r Comisiwn i gynnal sefyllfa negodi gref a sicrhau gwerth am arian wrth gaffael y mathau hyn o wasanaethau.

Felly, nid wyf o'r farn bod budd y cyhoedd sydd ynghlwm wrth ddatgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn drech na'r niwed tebygol a fyddai'n dilyn yn sgil datgelu'r wybodaeth honno.